

No.

PWYLLGOR CRAFFU'R AMGYLCHEDD AC ADFYWIO

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 18 Ionawr, 2022.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd B.E. Brooks (Cadeirydd); Cynghorydd S. Sivagnanam (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr V.J. Bailey, P. Drake, V.P. Driscoll, G. John, M.J.G. Morgan, A.R. Robertson, L.O. Rowlands a S.T. Wiliam.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr L. Burnett (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Addysg ac Adfywio), P.G. King (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth) and E. Williams (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddio a Chynllunio).

749 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrdd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

750 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr, 2021 fel cofnod cywir.

751 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

752 POLISI FFYRDD GWLEDIG -

Darparodd y Rheolwr Gweithredol ar gyfer Peirianeg (Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth) gyflwyniad PowerPoint yn nodi'r trefniadau presennol ar gyfer rheoli'r rhwydwaith ffyrdd lleol yn unol â dyletswyddau statudol y Cyngor a oedd fel a ganlyn:

- Cynnal a chadw'r briffordd i sicrhau taith ddiogel cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol,
- Sicrhau bod traffig yn symud yn rhydd a lleihau tagfeydd lle bo hynny'n ymarferol, a

No.

- Chymryd camau i atal damweiniau rhag digwydd.

Cyfeiriodd y Rheolwr Gweithredol at y ddeddfwriaeth berthnasol a ddefnyddir gan y Cyngor i bennu safonau cynnal a chadw priffyrdd a phennu buddsoddiad mewn seilwaith priffyrdd yn ogystal â'r broses adolygu ar gyfer blaenoriaethu cyllid ar gyfer cynlluniau gwella diogelwch yn y dyfodol.

I grynhoi i'r cyflwyniad, dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod y gwaith o reoli ffyrdd unigol ym Mro Morgannwg wedi'i wneud yn seiliedig ar ddyletswyddau statudol y Cyngor a bod y gweithdrefnau presennol sydd ar waith eisoes yn ystyried natur a chymeriad pob ffordd. Sicrhaodd hynny fod yr arian cyfalaf cyfyngedig a oedd ar gael yn cael ei ddyrannu'n briodol i'r rhwydweithiau trefol a gwledig.

Dywedodd y Cynghorydd M. Morgan fod y mater hwn wedi dod allan o gyfarfod o'r Pwyllgor Cyswllt Cymunedol y llynedd lle cododd Cyngor Cymuned yr angen am Bolisi Ffyrdd Gwledig yn y Fro. Cyfeiriwyd hyn at y Cabinet, a benderfynodd nad oedd angen Polisi Ffyrdd Gwledig ar wahân oherwydd bod pob ffordd yr un fath. Ychwanegodd y Cynghorydd Morgan fod iechyd a diogelwch cerddwyr ar y ffyrdd yn bryder cyffredin a godwyd gan Gyngorau Cymuned, felly roedd am i'r Pwyllgor edrych ar yr hyn y gellid ei wneud yn y dyfodol i ddyfeisio neu wella'r polisi penodol ar gyfer y ffyrdd gwledig fel ei fod yn fwy diogel i bobl a defnyddwyr ffyrdd.

Pan ofynnwyd iddo ymateb, dywedodd y Rheolwr Gweithredol ei fod yn derbyn yn llawn bod pob ffordd yn wahanol. Er enghraifft, roedd gwahanol fathau o lonydd gwledig ac roedd gwahanol fathau o ffyrdd trefol. Roedd gan y rhain i gyd nodweddion a chwerciau ychydig yn wahanol. Felly, byddai'r Cyngor yn ceisio asesu materion fesul achos. Ychwanegodd bod materion ar y ffyrdd yn gyffredin i lawer o ffyrdd yn y Fro, boed hynny'n wledig neu'n drefol. Er enghraifft, roedd goryrru yn broblem mewn ardaloedd gwledig a threfol, ond yr ardaloedd preswyl oedd lle'r oedd y rhan fwyaf o'r materion a'r pryderon. Felly, roedd gan y Cyngor fesurau ar waith i fynd i'r afael â'r rhain, megis drwy weithio gyda'r Heddlu.

O ran gwrthdrawiadau a damweiniau, dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod data'n cael ei goladu a'i asesu, ond mae'r Cyngor hefyd yn edrych ar bryderon a godwyd ar wahân gyda materion yr ymdriniwyd â hwy gystal ag y gallai'r Cyngor o fewn y gyllideb gyfyngedig sydd ar gael.

Cododd y Cynghorydd G. John fater llawer iawn o fwd ar ffyrdd, y gellid ei briodoli'n bennaf i weithgareddau ffermio a thractorau. Cyfeiriodd hefyd at beidio â gorchuddio trelars fferm yn briodol wrth gario deunydd. Byddai hyn yn aml yn arwain at ollyngiadau mawr ar ffyrdd. Yn ogystal, cododd y Cynghorydd John fater cyflwr gwael ffyrdd gwledig a olygai eu bod yn dueddol o ddioddef llifogydd. Roedd hyn hefyd yn golygu y gallai fod yn hawdd i gerbydau sglefrio ar y dŵr. Roedd angen mynd i'r afael â'r materion hyn.

Mewn ymateb, derbyniodd y Rheolwr Gweithredol bwyntiau'r Cynghorydd John gan fod y rhain yn bryderon iechyd a diogelwch. Roedd y rhain yn cynrychioli heriau anodd i'r Cyngor, ac ychydig iawn o adnoddau oedd ar gael ar eu cyfer. Roedd draenio ffyrdd gwledig yn fater penodol gan fod y seilwaith wedi'i gyfyngu i

No.

ddarparu draeniad cadarnhaol ac mewn sawl lleoliad roedd caeau cyfagos y briffordd ar lefel uwch ac yn gollwng dŵr wyneb i'r brif ffordd yn dwysáu'r sefyllfa.

Wrth gael ei wahodd i wneud sylwadau, cyfeiriodd y Cynghorydd P. King (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth) at dreialu parthau 20mya mewn 3 lleoliad yn y Fro. Nod y rhain oedd newid ymddygiad modurwyr, ac roedd yn ymddangos bod y cynlluniau peilot yn cael effaith gadarnhaol. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet fod y rhan fwyaf o'r pryderon a godwyd gan Aelodau'r Pwyllgor yn bodoli mewn trefi yn ogystal â phentrefi gwledig, a dyna pam yr oedd yn cefnogi sylwadau'r Rheolwr Gweithredol. Dywedodd ei fod yn credu mai Polisi Ffyrdd y Fro oedd y gorau y gellid ei gynnig, a oedd yn seiliedig ar yr adnoddau sydd ar gael.

Dywedodd y Cynghorydd Morgan fod pobl a oedd yn byw yn y cymunedau gwledig yn teimlo bod angen polisi gwahanol. Argymhellodd y dylid cyfeirio'r mater hwn at y Cabinet i ofyn a ellid ei ystyried eto gan na fyddai'r materion ond yn gwaethygu.

Roedd y Cadeirydd, y Cynghorydd Brooks, wrth gloi'r ddadl, wedi eilio argymhelliad y Cynghorydd Morgan, a dywedodd pe na bai Polisi ar wahân yn bosibl, yna efallai y gellid adolygu'r Polisi presennol, yn seiliedig ar bryderon cymunedau yn y Fro wledig. Derbyniwyd hyn gan y Pwyllgor Craffu.

Yna,

ARGYMHELLWYD - Gofyn i'r Cabinet ailedrych ar eu penderfyniad i beidio â gweithredu Polisi Ffyrdd Gwledig ar wahân neu i'r Polisi presennol gael ei adolygu i adlewyrchu pryderon diogelwch ar y ffyrdd a godwyd gan drigolion y Fro wledig.

Rhesymau dros yr argymhellion

Yn dilyn safbwyntiau a fynegwyd i'r Pwyllgor Craffu ynghylch diogelwch ar y ffyrdd mewn rhannau gwledig o'r Fro sy'n ymwneud â chyflwr gwael rhannau o'r rhwydwaith, yr angen am well arwyddion ffyrdd a phwysigrwydd mynd i'r afael â chyflymderau uchel ac effaith cerbydau trwm.

753 TEITHIO GWEITHREDOL – CANLYNIADAU'R YMGYNGHORIAD AR GYFER DIWEDDARIAD MAP Y RHWYDWAITH TEITHIO GWEITHREDOL 2021 (CYF) -

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan y Cabinet ar 20 Rhagfyr, 2021 gan Reolwr Grŵp y Gwasanaethau Trafnidiaeth. Diben hyn oedd rhoi gwybod am ganlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus ar fapiau Teithio Llesol arfaethedig y Cyngor, a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru i'w cymeradwyo, ac ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos ar y cynigion a gynhaliwyd rhwng 2 Awst a 24 Hydref 2021, y derbyniwyd 143 o ymatebion ohonynt.

No.

Fel rhan o'r ymgynghoriad hwnnw, cyflwynwyd y cynigion i'r Pwyllgor Craffu ar 21 Medi, 2021. Roedd y Pwyllgor wedi darparu nifer o safbwyntiau a nodwyd gan y Cabinet (Mae rhif cofnodion C703 yn cyfeirio.)

Roedd Atodiad B yn adroddiad a luniwyd gan Commonplace ar yr ymatebion a gafwyd drwy eu porth. Rhannwyd y llwyfan ar draws yr ardaloedd dynodedig, pob un yn cynnwys ffurflen sylwadau. Yr ardaloedd â'r cyfraniadau mwyaf oedd Penarth, Y Barri a'r Bont-faen. Yr ardaloedd â'r ymgysylltiad isaf oedd Llanilltud Fawr, y Rhws a Sili. Roedd sylwadau swyddogion i bob unigolyn a grŵp wedi'u cynnwys yn Atodiad B.

Dywedodd Rheolwr y Grŵp, yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus, fod 3 gwelliant wedi'u gwneud i'r mapiau ers i'r Pwyllgor eu gweld diwethaf ar 21 Medi, 2021. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- ychwanegu'r llwybr i lawr at Draeth Dwyrain Llanilltud Fawr;
- Roedd Aberddawan bellach wedi'i gynnwys;
- Ychwanegwyd Parc y Dingle ym Mhenarth.

Amlinellwyd bod y mapiau hyn yn gynllun cynhwysfawr yn y bôn ar gyfer dyfodol Teithio Llesol yn y Fro, a dim ond llwybrau ar y mapiau hyn fyddai'n gymwys i gael cyllid Teithio Llesol Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.

Roedd Llywodraeth Cymru wedi cael ei briffio'n llawn drwy gydol y broses ac wedi rhoi adborth cadarnhaol yn ystod eu hymgyngoriad. Roedd mapiau terfynol yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru ychydig cyn 31 Rhagfyr 2021. Fodd bynnag, roedd cafeat gyda'r cyflwyniad yn ymwneud â'r angen i'r mapiau gael eu hystyried gan y Pwyllgor Craffu cyn iddynt gael eu cymeradwyo'n derfynol.

Dywedodd y Cynghorydd Robertson fod llawer o bobl wedi cael problemau wrth geisio cael mynediad i'r mapiau ar y porth ymgynghori. Mewn ymateb, dywedodd Rheolwr y Grŵp fod y materion wedi'u hadnabod a'u nodi gyda Llywodraeth Cymru a bod copiâu PDF o'r mapiau wedi'u darparu fel dewis arall.

Dywedodd y Cynghorydd Robertson hefyd ei fod ef a thrigolion Dinas Powys yn awyddus iawn ac yn gefnogol i ddilyniant y llwybr Teithio Llesol rhwng Dinas Powys a'r Barri.

Cododd y Cynghorydd Morgan bryder yn ymwneud â'r gyfradd ymateb gymharol isel o'i chymharu â maint cyffredinol y boblogaeth yn y Fro. Gofynnodd y Cynghorydd Morgan sut y gellid gwella hyn a galwodd ar y Cyngor i ddod o hyd i fwy o ffyrdd o ymgysylltu â'r cyhoedd, megis anfon taflenni fel un dull amgen. Mewn ymateb, cyfeiriodd Rheolwr y Grŵp at ymgysylltu ag ysgolion a neges yn mynd allan drwy'r post at rieni. Roedd hyn yn ymddangos yn llwyddiannus, felly efallai bod dulliau tebyg gyda grwpiau a sefydliadau eraill y gellid eu defnyddio yn y dyfodol.

Ategodd y Cynghorydd Sivagnanam y pwyntiau a wnaed gan y Cynghorydd Morgan ynghylch ymgynghori, a nododd y sylwadau a gafwyd gan y Bwrdd

Croeso y byddai wedi bod o gymorth pe baent wedi cael eu cyfleu fel ffordd o rannu a chodi ymwybyddiaeth o'r ymarfer ymgynghori.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Sivagnanam at bryderon a godwyd gan drigolion y Marina ym Mhenarth yn dweud bod y rhain wedi cael eu hystyried. Mewn ymateb, dywedodd Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth eu bod wedi bod allan ar sawl achlysur o amgylch y Marina ac wedi cwrdd â nifer o drigolion a nifer o bobl a oedd â diddordebau yn yr ardal. Y prif fater oedd llwyddiant y ddau lwybr beicio a'r nifer fawr o bobl sy'n eu defnyddio, yn enwedig yn ystod Covid-19 ond hefyd yn ystod adegau eraill fel rhan o weithgareddau hamdden. Roedd y ddau lwybr hynny wedi'u nodi o dan y rhwydwaith Teithio Llesol hwn, ond cydnabuwyd bod angen gwaith gwella. Er mwyn bodloni'r trigolion, roedd y Cyngor wedi codi arwyddion yn gofyn i feicwyr ddod oddi ar eu beiciau lle na ddylent fod yn teithio ac i fod yn barchus a chwrtais i gerddwyr.

Soniodd y Cynghorydd John am ei gefnogaeth i lwybr Teithio Llesol rhwng Trebefered a Sain Tathan, a allai fod yn bosibl yn y dyfodol pe bai rhagor o arian ar gael.

Yna gwahoddwyd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth, y Cynghorydd King, i siarad a gwnaeth sylwadau ar y canlynol:

- Roedd ganddo hefyd rai problemau wrth gael mynediad i'r mapiau i ddechrau, ond roedd yn ymddangos bod y rhain wedi'u datrys ar ôl 3 neu 4 diwrnod.
- O ran y gyfradd ymateb i ymgynghoriadau, tynnodd sylw at y ffaith bod rôl i Gynghorwyr o bosibl wrth gynghori eu hetholwyr eu bod yn gallu gwneud sylwadau ar ymgynghoriad penodol sy'n cael ei gynnal.
- Roedd llwyddiant prosiectau i dderbyn cyllid yn seiliedig ar lefel y cymorth cyhoeddus a gafwyd yn ystod y broses ymgynghori.
- Roedd Rhanbarth Bargaen Ddinesig Caerdydd wedi bod yn ystyried cynigion ar gyfer llwybr Teithio Llesol o Gasnewydd, drwy Gaerdydd a chysylltu â Dinas Powys. Felly, byddai hyn yn rhywbeth y byddai gofyn i'r Pwyllgor Craffu ei ystyried yn y dyfodol.
- Roedd Network Rail yn berchen ar gryn dipyn o dir, y gellid ei ddefnyddio ar gyfer Teithio Llesol.

Wrth gael cais i wneud sylwadau, cyfeiriodd Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth at Brosiect y Metro a oedd yn edrych ar bob math o drafnidiaeth yn ardal De Cymru, gan gynnwys Bro Morgannwg. Felly, byddai'r prosiect Teithio Llesol o Gasnewydd yn rhan o'r astudiaeth hon. Byddai hyn yn destun adroddiad i'r Pwyllgor Craffu yn y dyfodol.

Wrth gloi'r ddadl, dywedodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Brooks, fod y Pwyllgor wedi codi sawl pwynt da ac wedi awgrymu y dylid cyfeirio'r rhain at y Cabinet. Cytunwyd ar hyn gan y Pwyllgor Craffu.

Wedi hynny

No.

ARGYMHELLWYD – Gofyn i'r Cabinet hwnnw ystyried sylwadau'r Pwyllgor Craffu a wnaed yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Ionawr 2022, cyn i'r Cabinet gymeradwyo'r cyflwyniad terfynol i Lywodraeth Cymru. Sylwadau'r Pwyllgor Craffu:

- I ystyried ymhellach sut mae ymarferion ymgynghori yn cael eu cynnal gan y Cyngor er mwyn denu barn mwy o aelodau o'r cyhoedd. Er enghraifft, drwy ofyn i sefydliadau fel y Bwrdd Croeso helpu i rannu ymgynghoriadau neu drwy ofyn am gymorth Cyngorwyr lleol i godi ymwybyddiaeth.
- Er mwyn ystyried llwybr Teithio Llesol yn y dyfodol rhwng Trebefered a Sain Tathan.
- Tynnu sylw at gefnogaeth y Pwyllgor Craffu a'r cyhoedd i'r llwybr Teithio Llesol a gynigir rhwng Dinas Powys a'r Barri.

Rhesymau dros yr argymhellion

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

754 MONITRO REFENIW A CHYFALAF AM Y CYFNOD 1 EBRILL I 30 TACHWEDD 2021 (CAT) –

Diben yr adroddiad oedd hysbysu'r Pwyllgor o'r cynnydd ynglŷn â gwariant refeniw a chyfalaf ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Tachwedd, 2021.

Adroddwyd y byddai'r sefyllfa refeniw ar gyfer 2021/22 yn heriol gyda'r pwysau parhaus ar wasanaethau yn weithredol ac yn ariannol o ganlyniad i'r pandemig COVID 19. Byddai hyn yn effeithio ar y ddau oherwydd gwariant ychwanegol ond hefyd oherwydd colli incwm. Roedd Llywodraeth Cymru wedi rhoi arian i ymdrin â rhai o'r materion. Dywedwyd y rhagwelir ar hyn o bryd y bydd gan yr adran Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth amrywiad anffafriol o £1.5m yn erbyn cyllideb 2021/22 a bod y gorwariant hwn yn cael ei ariannu drwy Gronfa Wrth Gefn Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth. Pennwyd targed effeithlonrwydd ar gyfer y flwyddyn ar £162 mil, roedd y gyllideb gyfalaf wedi'i phennu ar £24.79m y flwyddyn ariannol hon ac roedd cyllideb 2021/22 wedi'i diwygio ar gyfer trosglwyddiadau mewnol ac addasiadau technegol.

Holodd y Cynghorydd A. Robertson y £141k ar gyfer Prosiect Gwydnwch Llifogydd Dinas Powys a holodd a oedd yr arian hwnnw ar gyfer gwaith yr arolwg ar eiddo yr effeithiwyd arno gan lifogydd. Cadarnhaodd y Rheolwr Gweithredol Peirianeg (Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth) ei fod felly. Ychwanegodd y byddai hyn yn galluogi'r Cyngor i gynnal arolwg o eiddo a oedd yn mynegi diddordeb. Byddai hyn wedyn yn arwain at gyflwyno achos busnes i lywodraeth Cymru ar gyfer ariannu gweithredu'r mesurau ar yr eiddo a oedd â diddordeb. Ar hyn o bryd, roedd llythyrau wedi'u hanfon at bob eiddo neu'r rhan fwyaf ohonynt a hyd yn hyn, roedd diddordeb wedi dod yn ôl gan tua 80. Gan ei fod yn dal yn gynnar yn y broses, y gobaith oedd y byddai mwy o bobl yn cysylltu.

Holodd y Cynghorydd S. Wiliam gais cyfalaf am wyneb newydd to Cysgodfa'r Dwyrain ar Ynys y Barri. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod

No.

rhywfaint o bryder ynglŷn â'r concrit, felly roedd rhywfaint o waith ymchwilio ac archwilio wedi'i wneud. Roedd gwaith diogelwch wedi'i wneud i gael gwared ar unrhyw goncrit rhydd cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol ac roedd y strwythur yn cael ei fonitro ond roedd angen gwaith atgyweirio concrit manylach a pharhaol y cyflwynwyd cais cyfalaf ar ei gyfer. Ni wyddys eto a oedd y cais cyfalaf yn llwyddiannus, ond byddai monitro'n parhau i gynnal diogelwch y strwythur cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol

Holodd y Cynghorydd S. Wiliam gais cyfalaf am wyneb newydd to Cysgodfa'r Dwyrain ar Ynys y Barri. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod rhywfaint o bryder ynglŷn â'r concrit, felly roedd rhywfaint o waith ymchwilio ac archwilio wedi'i wneud. Roedd gwaith diogelwch wedi'i wneud ond roedd angen ymchwiliad manylach. Y bwriad oedd gwneud gwaith atgyweirio pellach dros y 6 i 12 mis nesaf.

Nid oedd unrhyw ymholiadau pellach, felly

ARGYMHELLWYD – Nodi'r sefyllfa o ran cyllidebau refeniw a chyfalaf 2021/22.

Rhesymau dros yr argymhellion

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

755 OLRHAIN ARGYMHELLIAD CRAFF 3YDD CHWARTER 2021/22 AC AMSERLEN RHAGLEN WAITH YMLAEN Y PWYLLGOR WEDI'I DIWEDDARU 2021/22 (RG) –

Diben yr adroddiad oedd adrodd ar y cynnydd yn sgil yr argymhellion Craffu ac ystyried y Flaenraglen Waith ddiweddar ynghyd ag unrhyw lithriad ar gyfer 2021/22.

Roedd yr adroddiad yn rhoi gwybod i'r Aelodau am gynnydd argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Craffu yn y gorffennol a'r Flaenraglen Waith wedi'i diweddarau ar gyfer 2021/22 i'r Pwyllgor ei hystyried:

- Argymhelliad 3ydd Chwarter Orlhain Hydref i Ragfyr 2021 (Atodiad A);
- Tracio Argymhellion Chwarter 2 - Mis Gorffennaf i fis Medi 2021 (Atodiad B);
- 2020-21 Argymhellion heb eu cwblhau (Atodiad C);
- 2019-20 Argymhellion heb eu cwblhau (Atodiad D);
- 2018-19 Argymhellion heb eu cwblhau (Atodiad E); ac
- Amserlen Blaenraglen Waith wedi'i diweddarau ar gyfer 2021/22 (Atodiad F).

ARGYMHELLWYD –

(1) Cytuno ar statws y camau gweithredu a restrir yn Atodiad A i D yr adroddiad.

No.

(2) Cymeradwyo Atodlen Blaenraglen Waith ddiweddaraf y Pwyllgor sydd wedi ei hatodi yn Atodiad Dd a'i huwchlwytho i wefan y Cyngor.

Rhesymau dros yr argymhellion

- (1) Parhau i dracio argymhellion y Pwyllgor yn effeithiol.
- (2) I'w hystyried ac er gwybodaeth.